

## 2024 Rhif (Cy.)

### TRAFNIDIAETH A GWEITHFEYDD, CYMRU

#### GORCHYMYN RHEILFFORDD FYNYDD ABERHONDDU (RHEILFFORDD YSGAFN) 202[ ]

Gwnaed	202[ ]
Yn dod i rym	202[ ]

Mae cais wedi ei wneud i Weinidogion Cymru yn unol â Rheolau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006(1) am Orchymyn o dan adrannau 1 a 5 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992(2) ("Deddf 1992").

[Mae Gweinidogion Cymru wedi peri i ymchwiliad gael ei gynnal at ddibenion y cais o dan adran 11 o Ddeddf 1992.]

Mae Gweinidogion Cymru, [ar ôl ystyried y gwrthwynebiadau a wnaed a'r rhai nas tynnwyd yn ôl, ac adroddiad y person a gynhaliodd yr ymchwiliad], wedi penderfynu gwneud Gorchymyn i roi effaith i'r cynnig a gynhwysir yn y cais [gydag addasiadau sydd ym marn y gweinidogion ddim yn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynnig].

Cyhoeddwyd hysbysiad o benderfyniad Gweinidogion Cymru yn y *London Gazette* ar [ ] 202[ ].

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru wrth ymarfer y pwerau a roddir gan adrannau 1 a 5, a pharagraffau 1, 8, 12, 15 ac 17 o Atodlen 1, o Ddeddf 1992, sydd bellach yn ymarferadwy ganddynt(3), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

#### RHAN 1

#### RHAGARWEINIOL

#### 1. Teitl a chychwyniad

Teitl y Gorchymyn hwn yw ..... ac mi fydd yn dod i rym ar .....

#### 2. Dehongliad

(1) Yn y Gorchymyn hwn –

"Y Gorchymyn Gwreiddiol" yw Gorchymyn Rheilffordd Fynydd Aberhonddu (Rheilffordd Ysgafn) 1980;

“Y Perchennog” yw Brecon Mountain Railway Company Limited, cwmni a ymgorfforwyd o dan Ddeddf Cwmnïau 1967 (rhif cwmni 01409791) fel cwmni cyfyngedig drwy gyfrannau, gyda’i swyddfa gofrestredig yng Ngorsaf Pant, Pontsticill, Merthyr Tudful, Cymru CF48 2UP;

“Y Reilffordd” yw’r reilffordd a adnabyddir fel ‘Rheilffordd Fynydd Aberhonddu’ (Brecon Mountain Railway) sef rheilffordd 8,720 metr o hyd, neu oddeutu hynny, gan gynnwys twnnel sy’n cychwyn yn Sir Merthyr Tudful ar gyfeirnod map SO 059097 ac yn terfynu yn Sir Powys ar gyfeirnod SO 058170;

“Y Dyddiad Trosglwyddo”, mewn perthynas â’r reilffordd, yw’r dyddiad y mae’r teitl yn trosglwyddo o’r Perchennog i’r Ymgwymerwr o dan erthygl 3 (trosglwyddiad y reilffordd i’r Ymgwymerwr);

“Y Trosglwyddai” yw unrhyw berson y mae’r reilffordd, neu unrhyw ran o’r reilffordd, yn cael ei phrydlesu neu ei gwerthu iddo o dan y pwerau a roddir gan erthygl 4 (trosglwyddiad y reilffordd gan yr Ymgwymerwr);

“Yr Ymgwymeriad a Drosglwyddir” yw cymaint o’r reilffordd a lesir neu a werthir o dan y pwerau a roddir gan y Gorchymyn hwn; ac

“Yr Ymgwymerwr” yw Vale of Rheidol Railway Limited, cwmni a ymgorfforwyd o dan Ddeddf Cwmnïau 1985 (rhif cwmni 02188631) fel cwmni cyfyngedig drwy gyfrannau, gyda’i swyddfa gofrestredig yng Nghoedlan y Parc, Aberystwyth, Ceredigion, Cymru SY23 1PG.

- (2) Bras amcan yw’r holl hydroedd a chyfarwyddiadau a ddatgenir mewn unrhyw ddisgrifiad o’r reilffordd.
- (3) Dehonglir gyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at bwyntiau â llythyrau, neu lythrennau a rhifau, fel cyfeiriadau at bwyntiau ar y planiau a adneuwyd gyda’r Gorchymyn Gwreiddiol ac sydd ar gael i’w harchwilio yng Ngorsaf Pant, Pontsticill, Merthyr Tudful, Cymru CF48 2UP.
- (4) Mae unrhyw ddeddfiadau lle awdurdodwyd adeiladu, cynnal a chadw, defnydd a gweithred y reilffordd yn parhau i gael effaith yn ddarostyngedig i’r Gorchymyn hwn.

RHAN 2  
TROSGLWYDDO A GWEITHREDU'R REILFFORDD

**3. Trosglwyddiad y reilffordd i'r Ymgwymerwr**

- (1) Caiff y Perchennog a'r Ymgwymerwr ymrwymo i gytundebau sy'n darparu ar gyfer trosglwyddo i'r Ymgwymerwr, a'i freinio, i'r holl deitl, hawliau, buddiannau a phwerau a all fod ganddo mewn neu mewn cysylltiad a'r reilffordd.
- (2) Ac eithrio fel y darperir fel arall yn y Gorchymyn hwn, o'r Dyddiad Trosglwyddo ymlaen—
  - (a) bod y reilffordd neu unrhyw ran ohoni yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r holl ddarpariaethau statudol ac eraill a'r cydsyniadau sy'n gymwys i'r reilffordd ar y dyddiad hwnnw (i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny'n dal i fodoli ac yn gallu cael effaith); a
  - (b) bod yr Ymgwymerwr, gan eithrio'r Perchennog—
    - (i) â'r hawl i fudd ac i ymarfer yr holl hawliau, pwerau a breintiau sy'n ymwneud â'r reilffordd neu unrhyw ran ohoni; ac
    - (ii) yn ddarostyngedig i bob rhwymedigaeth, statudol neu fel arall, sy'n ymwneud â'r reilffordd neu unrhyw ran ohoni (i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny'n dal i fodoli ac yn gallu cael effaith) i'r bwriad y bydd y perchennog yn cael ei ryddhau ar yr un pryd o bob un o'r rhwymedigaethau.

**4. Trosglwyddiad y reilffordd gan yr Ymgwymerwr**

- (1) Ar unrhyw adeg ar ôl y Dyddiad Trosglwyddo caiff yr Ymgwymerwr, gyda chaniatâd y Gweinidog, werthu neu brydlesu'r reilffordd, neu ran ohoni, i unrhyw Drosoglwyddai ar delerau ac amodau y cytunir arnynt rhwng yr Ymgwymerwr a'r Trosglwyddai.
- (2) Ac eithrio fel y darperir fel arall yn y Gorchymyn hwn:
  - (a) bydd yr Ymgwymeriad a Drosoglwyddir yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r holl ddarpariaethau statudol neu ddarpariaethau eraill sy'n gymwys iddo ar ddyddiad y brydles neu'r gwerthiant (i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny'n dal i fodoli ac yn gallu dod i rym); a
  - (b) bod y Trosglwyddai, gan eithrio'r Ymgwymerwr—
    - (i) â'r hawl i fudd ac i arfer yr holl hawliau, pwerau a breintiau sy'n ymwneud â'r Ymgwymeriad a Drosoglwyddir; a
    - (ii) yn ddarostyngedig i bob rhwymedigaeth, statudol neu fel arall, sy'n ymwneud â'r Ymgwymeriad a Drosoglwyddir (i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny'n dal i fodoli ac yn gallu dod i rym) i'r bwriad bod yr Ymgwymerwr yn cael ei ryddhau o bob rhwymedigaeth o'r fath.
- (3) Pan fo cytundeb wedi ei wneud yn rhinwedd paragraff (1), bydd cyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at yr Ymgwymerwr yn cynnwys cyfeiriadau at y Trosglwyddai.
- (4) Mae paragraff (1), (2) a (3) yn effeithiol tra pery unrhyw les a roddir ac o ddyddiad gweithredol unrhyw werthiant, o dan y pwerau a roddir gan yr erthygl hon.

## **5. Pŵer i weithredu a defnyddio'r reilffordd**

- (1) Ar ac ar ôl y dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym, caiff yr Ymgwymerwr neu'r Trosglwyddai, yn ôl y digwydd, weithredu a defnyddio'r reilffordd fel system, neu ran o system, o gludo teithwyr.
- (2) Caiff yr Ymgwymerwr fynnu, cymryd ac adennill neu ildio'r cyfryw daliadau am gludo teithwyr ar y reilffordd, neu am unrhyw wasanaethau neu gyfleusterau a ddarperir mewn cysylltiad â gweithrediad y reilffordd, ag y gwêl yn dda.
- (3) Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn nac mewn unrhyw ddeddfiad a gymhwysir gan y Gorchymyn hwn sy'n rhagfarnu nac yn effeithio ar weithrediad Rhan 1 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993.

## **6. Pŵer symud**

- (1) Yn ychwanegol i ddarpariaethau erthygl 9 o'r Gorchymyn Gwreiddiol ac yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), caiff y pŵer symud sydd i'w ddefnyddio ar y reilffordd gynnwys batri-drydan neu unrhyw bŵer arall a'i gymeradwyd yn ysgrifenedig gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd.
- (2) Nid oes dim yn y Gorchymyn hwn sy'n awdurdodi defnyddio pŵer trydanol fel pŵer symud ar y reilffordd oni cheir y pŵer hwn o fatris storio neu o ffynhonnell gynhyrchu sydd wedi'i chynnwys yn gyfan gwbl yn yr injans a'r cerbydau ac a gludir ynghyd â hwy.
- (3) Os defnyddir pŵer trydanol fel pŵer symud ar y reilffyrdd, rhaid peidio â defnyddio'r pŵer trydanol mewn modd a fydd yn achosi neu sy'n debygol o achosi unrhyw ymyrraeth â chyfarpar cyfathrebu electronig, os o gwbl, neu â'r defnydd o'r cyfarpar hwnnw.

## NODYN ESBONIADOL

*(Dyw'r nodyn hwn ddim yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn galluogi trosglwyddo'r pwerau a'r rhwymedigaethau statudol yng Ngorchymyn Rheilffordd Fynydd Aberhonddu (Rheilffordd Ysgafn) 1980 oddi wrth Brecon Mountain Railway Company Limited i Vale of Rheidol Railway Limited.

Gellir archwilio copïau o'r cynlluniau a adnewwyd y cyfeirir atynt yn erthygl 2(3) o'r Gorchymyn yn swyddfeydd y Perchennog yng Ngorsaf Pant, Pontsticill, Merthyr Tudful, Cymru CF48 2UP.

Nid yw'r Gorchymyn hwn yn awdurdodi gwaith adeiladu.

- (1) S.I 2006/1466, diwygwyd gan S.I. 2010/439, S.I. 2011/2085, S.I 2012/147, S.I. 2012/2590 ac S.I 2013/755.
- (2) 1992 c. 42. Diwygiwyd adran 1 gan baragraffau 51 a 52 o Atodlen 2 i Ddeddf Cynllunio 2008 (c. 29), diwygiwyd adran 5 gan S.I. 2012/1659.
- (3) Mae pwerau o dan adrannau 1 a 5, a pharagraffau 8, 15 ac 16 o Atodlen 1, y Ddeddf, bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn ymarferol o ran Cymru. Cawsant eu breinio o'r blaen yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 ac Atodlen 1 Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.I. 1999/672). Yn rhinwedd paragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (c. 32), cawsant eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.